**GWEINIDOGION Y DU YN GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**96 - Rheoliadau Mewnforion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiad) (Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd) 2019**

*Wedi'u gosod yn Senedd y DU: 5 Chwefror 2019*

| **Sifftio** | |
|---|---|
| Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU? | Na |
| Y weithdrefn: | Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Dd/B |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Nid yw'n hysbys |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Dd/B |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 23 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Nid yw'n ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Dd/B |
| Y weithdrefn | Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Nid yw'n hysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Nid yw'n hysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Nid yw'n hysbys |

**Sylwadau**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae Rheoliadau Mewnforion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiad) (Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd) 2019 yn diwygio deddfwriaeth Ewropeaidd yn ymwneud â rheolaethau mewnforio ar fwyd a bwyd anifeiliaid, o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig, i sicrhau eu bod yn gweithredu ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae deddfwriaeth mewnforion yn gosod rheolau ar gyfer dilysu cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid gan awdurdodau cymwys yn y DU megis yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA).

Mae'r offeryn hwn yn diwygio cyfeiriadau at sefydliadau a systemau Ewropeaidd er mwyn bod y ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu yn y DU

yn dilyn ar ôl ymadael â'r UE. Y bwriad yw darparu dilyniant i weithredwyr a masnach wrth amddiffyn iechyd y cyhoedd.

Nid oes gan y Rheoliadau unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ond byddant yn cryfhau pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru drwy drosglwyddo pwerau a dyletswyddau sydd wedi'u rhoi a'u gosod ar hyn o bryd ar y Comisiwn Ewropeaidd i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 6 Chwefror 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn. Rydym yn croesawu'n arbennig eglurder y datganiad hwn, a'r eglurhad clir a roddir ynghylch yr effaith ar bwerau gweithredol Gweinidogion Cymru.

Mae’r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i’r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion sylweddol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.